Tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o wobr John Muir

❖Darganfod – ardal naturiol. Gallai hyn fod eich gardd, ardal awyr agored mewn lleoliad, coetir, llwybr rydych yn cerdded neu gwendu ymarfer corff……

❖Archwilio – dysgwch am yr ardal, Beth sy'n byw yno? Gallwch ddefnyddio llyfr lloffion, tynnu ffotograffau, gwaith celf, barddoniaeth. Defnyddiwch unrhyw dechneg i ddysgu am y safle ac i gael gwybodaeth i'w rhannu am eich safle.


❖Gwarchod – gwnewch rywbeth i ofalu am eich safle. Crëwch westy trychfilod o ddarnau o bren, crëwch declynnau i fwydo adar â hadau gan ddefnyddio cyngor gan sefydliad megis yr RSPB, meddwl am ffyrdd i fod yn fwy cynaladwy.



Wobr John Muir Darganfod: Coed-Y-Foel - Video





Wobr John Muir Darganfod: Coed-Y-Foel




"Nodyn o beth i fi'n gweld, dysgu, sylwi ar a gwerthfawrogi ar wâc trwy Coed -Y - Foel.

Wobr John Muir **Archwilio:** Llyfr plant ‘Wac da fi, Meg y ci !’





I CHI'N DOD?
DEWCH 'DA FI!
NI'N MYND I FY
HOFF LE YN Y BYDI
GYD... AM WAC
YN YR HOEL
YN COED-Y-
FOEL.



MAE'R COEDWIG YNA YN
LLAWN BYWYD.
O BLODAU BACH CAIN I
COED DDERW
ENFAWR.
DILYNNWCH CHI
FI, Â DDANGOSAU
E GYD I CHI
NAWR...

SBIWCH LAN YN UCHEL, YN DDISTAW, DDISTAW BACH, MAE TWM Y TYLLUAN YN CYSGU YNGHANOL YR AWYR IACH.




A DRYCHWCH! YN EI CARTREF YNG NGHANOL Y DAIL, MA' DEWI'R DRAENOG. DWI'N CHWIFIO HELO, HEB FYND RHY AGOS GAN FOD EI CORFF MOR MINIOG.




OND YNG NGHANOL Y BYWYD GWYLLT, MAE NA RHYWBETH SY'N 'NEUDIFI'N DRIST.

SBWRIEL!

MAE'N ANAFU'R ANIFEILIAID AC YN LLYGRU'N PLANET NI! FELLY PEIDIWCH A FOD YN SILLY, EWCH A'CH SPWRIEL ADREF EFO CHI



MAE COED-Y-FOEL
YN CARTREF I
LLAWER O'N FFRINDIE'I,
FELLY EWCH A
MWYNHEWCH OND COFIWCH
I PARCHU NHW
GYD!




Video: Darlleniad Stori

Wobr John Muir Archwilio: Coed - Y - Foel

Llyfr gwybodaeth: tudalen 1



Llyfr gwybodaeth: tudalen 2



Llyfr gwybodaeth: tudalen 3

Prosiect 'PLANTATREE'



COED I POB PLENTYN YNG NGHYMRU!


Mae Coed-Y-Foel yn coetir Plant! Un o blith nifer o leoedd arbennig sydd wedi'u dewis i helpu ddathlu bywyd newydd yng Nghymru.

Ar gyfer yr holl blant sydd wedi'u geni neu eu mabwysiadu er 1af o Ionawr 2008, mae coeden wedi'i phlannu, gan greu coedwig cenedlaethol o goed llydanddail brodorol. Er Ebrill 2014, mae ail goeden wedi'i phlannu yn Uganda mewn partneriaeth â'r elusen amgylcheddol 'Maint Cymru'.


Rhaglen gan Llywodraeth Cymru yw Plant!, sydd wedi'i hysbrydoli gan eneth ysgol 11 mlwydd oed, Natalie Vaughan. Awgrymodd fydde'n ffordd dda o wneud i bobl ifanc feddwl am eu hamgylchedd a'r rôl sydd ganddynt yn ei warchod.



edrychwch ar yr holl goed yn tyfu!



Llyfr gwybodaeth: tudalen 4



Wobr John Muir Gwarchod: Coed - Y - Foel





Dros y cwpwl o dyddiau diwethaf, i fi di bod yn ymweld a Coed-Y-Foel tipyn, yn casglu popeth oedd angen arnaf ar gyfer fy mhroject, ac wrth gwrs er mwyn i Meg y ci cal wâc ! Bob un tro o ni 'na, o ni'n sylwi ar bagiau plastic llawn baw ci. Oedd rhai ynghanol y llwybr, rhai yn y cloddiau a rhai wedi cuddio o dan dail. Llwyddes' i cymryd y tair llun yma yn syth, o ni llai na 10 cam mewn i'r goedwig. Sylweddolais fod hyn yn amlwg yn broblem fawr. Heb bin unrhyw le yn yr ardal, yn anffodus mae pobl yn fod yn bwdwr, yn lle mynd a'i sbwriel adref, maent yn cael ei adael yno, heb ystyried yr effaith mae hyn yn cael ar y byd natur a'r amgylchedd. Felly, fel rhan o fy prosiect gwarchod ar gyfer y wobr John Muir, penderfynais neud rhywbeth amdano hyn !



Yn gyntaf, o ni'n mynd i ceisio gysylltu â'r cyngor lleol, ond yn y diwedd penderfynais i ddatrys y problem fy hyn. O ni ddim am fynd allan i prynnu bin plastic newydd gan fy mod yn ceisio wneud fwy o dewisiadau cynaliadwy. Felly, penderfynais gofyn o amgylch i weld os oedd da unrhyw un bin o nhw ddim yn defnyddio ! Wrth lwc, oedd Dadcu fi â bin hen yn eistedd yn yr ardd oedd heb cal i defnyddio am flynyddoedd, nath e hefyd dod o hyn i clawr sbar yn y shed ! Es I allan I prynnu rholyn o bagiau du cryf a nes I hefyd creu poster I rhoi ar ei flaen. I fi'n bwriadu gwagio'r bin yma unwaith bob pythefnos ac rwyf yn gobeithio fydd y prosiect yma yn lleihau'r nifer o sbwriel sydd yn cael ei adael yn yr ardal hyfryd yma !



Poster ar gyfer y bin:

BIN IT, DON'T FLING IT !

Helpwch i warchod yr ardal hon, defnyddiwch y bin am mess eich ci !

Help me conserve this area, please pick up your dog mess and bin it here !

This bin was put here voluntarily by a member of the public, therefore must be emptied by myself ! So if you are able to take your rubbish home that's AWESOME !

DIOLCH PAWB, MWYNHEWCH EICH WÂC

John Muir Conservation project